Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Sut y gallwn ni eich helpu chi i ddefnyddio ein gwasanaeth



ombwdsmon.cymru

# Ni yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Gwnawn dri pheth. Rydym yn:

- ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus
- ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad
- ysgogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen. Mae ein gwasanaeth am ddim i'w ddefnyddio.

Yn OGCC, ein nod yw dileu, lleihau ac atal unrhyw rwystrau i fynediad i bobl sy'n cwyno i ni. Gwnawn ein gorau i helpu, cyn belled â bod yr hyn sydd ei angen arnoch yn **rhesymol** a **chymesur**.

Rydym yn cofleidio'r Gymraeg. Gallwch bob amser gwyno i ni yn y Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at gymryd mwy o amser i ni ymateb i chi.

Gallwch gyfieithu ein gwefan a'n ffurflen gwyno ar-lein i ieithoedd gwahanol. Gallwch hefyd ddefnyddio technoleg gynorthwyol i gael mynediad ati.

## Efallai y gallwn

- drefnu i gymryd eich cwyn dros y ffôn neu gwrdd â chi dros declyn cyfathrebu ar-lein (fel Microsoft Teams)
- anfon gwybodaeth atoch mewn fformatau gwahanol (er enghraifft, print bras, fformat Hawdd ei Ddeall, Braille, recordiad sain, neu ar bapur lliw gwahanol)
- anfon gwybodaeth atoch yn eich dewis iaith neu drefnu cyfieithydd i'n helpu i gyfathrebu
- rhoi mwy o amser i chi anfon unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnom oddi wrthych
- sicrhau nad ydym yn cysylltu â chi ar ddyddiadau penodol (er enghraifft, yn ystod rhai gwyliau crefyddol)
- trefnu i'ch ffonio ar amser penodol, neu roi gwybod i chi pryd y byddwn yn cysylltu â chi
- os ydych yn bryderus am siarad â phobl nad ydych yn eu hadnabod, drefnu i chi gael un pwynt cyswllt wrth i ni ddelio â'ch cwyn.

## Helpwch ni i'ch helpu chi

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, bydd bob amser yn ddefnyddiol pe baech yn rhoi gwybod i ni am eich anghenion a / neu os gallwch awgrymu pa gymorth fyddai'n gweithio i chi.

Gall eich sefyllfa newid dros amser. Os bydd hynny'n digwydd, rhowch wybod i ni. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi am eich anghenion wrth i ni edrych ar eich cwyn.

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd esbonio pa gymorth sydd ei angen arnoch, rhowch wybod i ni - efallai y gallwn eich cyfeirio at sefydliad a all helpu.

## Sut i gysylltu â ni

ffoniwch ni:
**0300 790 0203**

e-bostiwch ni:
**holwch@ombwdsmon.cymru**

anfonwch lythyr atom:
**1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ**

Am ein ffurflenni cwyno, ewch i'n gwefan:
**ombwdsmon.cymru**

Gallwn hefyd bostio copi atoch.

**Os hoffech ddarllen y daflen hon mewn fformat arall (er enghraifft Braille, print bras neu Hawdd ei Ddeall), rhowch wybod i ni.**